

1932-1998

# Mary Wynne Warner

## Mathemategydd Cymreig a ffigwr blaenllaw mewn topoleg niwlog

Roedd Mary Wynne Warner (née Davies) yn fathemategydd pur ac yn ffigwr blaenllaw ym maes topoleg niwlog, sef astudiaeth o brosesau di-dor ar ddata sydd yn eu hanfod yn anfanwl neu'n 'niwlog'. Ei nod oedd 'gwneud y briodwedd o anfanwlrwydd yn fanwl gywir'.

Ganed Mary Wynne Davies yng Nghaerfyrddin. Wedi rhagori yn Ysgol Howell i Ferched, Dinbych, enillodd ysgoloriaeth i astudio mathemateg ym Mhrifysgol Rhydychen; graddiodd yn 1953, a pharhaodd â'i hastudiaethau gan arbenigo mewn topoleg algebraidd. Ym 1956, priododd y diplomydd a swyddog cudd-wybodaeth Gerald Warner, a dechreuodd deithio'n eang gydag ef trwy ei bostiadau niferus. Cyfunodd fywyd diplomyddol, cymdeithasol a theuluol heriol â'i hymchwil mathemategol, gan ddal swyddi academaidd mewn gwledydd fel Tsieina, Myanmar, y Swistir, a Gwlad Pwyl, lle ysgrifennodd draethawd PhD mewn topoleg algebraidd ar gyfer Prifysgol Warsaw ym 1966. Cafodd ei gŵr ei urddo'n farchog am ei wasanaeth i'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Gyfrinachol (SIS/MI6), y bu'n Ddirprwy Bennaeth iddo rywbyrd. Arweiniodd ymchwil y Fonesig Warner ar ofodau goddefgarwch ac awtomata i hi fod yn un o ymchwilyr mwyaf blaenllaw mewn mathemateg niwlog. Daeth yn Athro yn 1996, a bu farw yn 1998, yn 65 oed.

**Enw llawn:** Mary Wynne Warner  
**Ganwyd:** 22 Mehefin 1932  
**Tref enedigol:** Caerfyrddin, Cymru  
**Galwedigaeth:** Mathemategydd  
**Bu farw:** 1 Ebrill 1998  
**Adnabyddus am:** Topoleg niwlog



History of  
Computing  
Collection

technocamps

@technocamps

